POLISI PREIFATRWYDD GWEITHWYR (Drafft)

Mae'r Polisi Preifatrwydd hwn yn disgrifio sut y defnyddiwn ac y gwarchodwn unrhyw wybodaeth a gasglwn am ein gweithwyr ac ymgeiswyr am swyddi, fel ein bod yn cydymffurfio â'ch hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. Rydym yn cadw'r hawl i ddiwygio'r datganiad preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd. Dylech wirio'r dudalen hon yn achlysurol i sicrhau eich bod yn hapus ag unrhyw newidiadau a wnaed. Ac eithrio fel yr eglurir yn y datganiad, ni wnawn ryddhau unrhyw wybodaeth bersonol i drydydd parti o dan unrhyw amgylchiadau oni bai eich bod wedi awdurdodi hynny'n benodol, neu os oes raid i ni wneud o dan y gyfraith.

Rydym wedi cofrestru fel rheolydd data gyda Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth y DU a'n rhif cofrestru diogelu data yw **Z6977730.** I ddysgu mwy am Ddiogelu Data, darllennwch ein **Polisi Diogelu Data.**

Yn y Polisi Preifatrwydd hwn mae **"Grŵp Llandrillo Menai", "ni"** ac **"ein"** yn golygu Grŵp Llandrillo Menai, ei is-gwmnïau a chwmnïau cyswllt drwy'r byd.

Er mai diben y Polisi Preifatrwydd hwn yw disgrifio gweithgareddau prosesu gwybodaeth ehangaf y Grŵp, gallai'r gweithgareddau prosesu hynny fod yn fwy cyfyngedig mewn rhai awdurdodaethau oherwydd cyfyngiadau eu cyfreithiau. Er enghraifft gallai cyfreithiau gwlad benodol gyfyngu ar y math o wybodaeth bersonol y gallwn ei chasglu neu ar y ffordd y proseswn y wybodaeth honno. Yn yr achosion hynny, rydym yn addasu ein polisïau a'n harferion mewnol i adlewyrchu gofynion y gyfraith leol.

Mae Grŵp Llandrillo Menai'n "gorff elusennol wedi'i eithrio" ac wedi'i ymgorffori ers 1993. Mae hyn yn golygu y gall ddefnyddio, prosesu a throsglwyddo gwybodaeth bersonol ei staff i'r awdurdodau perthnasol; HMRC, Pensiynau, Cyflogau ac yn y blaen, er mwyn cynnal eich cyflogaeth gyda'r Grŵp.

Gallai fod gan wefan Grŵp Llandrillo Menai (www.gllm.ac.uk) neu wefannau ei is-gwmnïau a chwmnïau cyswllt bolisïau preifatrwydd ar wahân a thelerau ar wahân ar gyfer eu defnyddio. Gallai fod gan rai o'n cynhyrchion a'n gwasanaethau hefyd bolisïau preifatrwydd a thelerau defnydd ar wahân ar gyfer eu defnyddio. Nid yw'r Polisi hwn yn berthnasol i unrhyw wybodaeth bersonol a gesglir am eich defnydd o'r gwefannau, cynhyrchion neu wasanaethau hynny.

Os nad ydych yn siŵr sut, neu os yw'r Polisi Preifatrwydd hwn yn berthnasol i chi, e-bostiwch data@gllm.ac.uk.

Gwasanaethau Trydydd Parti

Mewn rhai achosion gallwch ddarparu gwybodaeth bersonol i drydydd partïon y mae'r Grŵp yn gweithio gyda nhw. Er enghraifft, gwefan trydydd parti lle gallech wneud cais am swydd gyda'r Grŵp, neu fanteisio ar wasanaethau sydd ar gael i'n gweithwyr. Efallai mai telerau defnydd a pholisïau preifatrwydd gwahanol sy'n

llywodraethu'r defnydd a wneir o'r gwefannau trydydd parti hyn, nid ein rhai ni ac nid y Polisi hwn. Dylech gysylltu â'r trydydd partïon hyn os ydych eisiau holi am eu harferion preifatrwydd neu ofyn iddynt ddileu eich gwybodaeth bersonol.

Beth yw Gwybodaeth Bersonol?

I bwrpas y Polisi Preifatrwydd hwn, mae gwybodaeth bersonol, a elwir hefyd yn wybodaeth neu'n ddata personol lle gellir adnabod y person, yn golygu unrhyw wybodaeth sydd (i) yn adnabod unigolyn yn uniongyrchol a chlir, neu (ii) y gellir ei defnyddio mewn cyfuniad ag unrhyw wybodaeth arall i adnabod unigolyn.

Nid yw gwybodaeth bersonol yn cynnwys gwybodaeth o'r fath os yw'n ddienw neu os yw wedi'i haddasu fel na ellir adnabod rhywun drwy dynnu data adnabod.

Gallai enghreifftiau o wybodaeth bersonol gynnwys:

- Enw unigolyn.
- Rhif ID gweithiwr.
- Rhif Yswiriant Gwladol.
- Cyfeiriad cartref.
- Rhif ffôn y cartref.
- Cyfeiriad e-bost personol.
- Enwau aelodau o'r teulu.
- Dyddiad geni.

Beth yw Gwybodaeth Bersonol Sensitif?

Mae gwybodaeth sensitif yn is-set o wybodaeth bersonol a allai fod yn fwy sensitif ei natur i'r unigolyn dan sylw.

Gallai enghreifftiau o wybodaeth bersonol sensitif gynnwys:

- Gwybodaeth am hil, tarddiad ethnig, tueddiad rhywiol, credoau gwleidyddol neu grefyddol.
- Rhif nawdd cymdeithasol neu rifau adnabod trethdalwr / eraill gan y llywodraeth.
- Gwybodaeth ariannol (e.e. eich union gyflog).
- Gwybodaeth iechyd neu feddygol, gan gynnwys gwybodaeth enetig.
- Cofnodion troseddol.
- Aelodaeth o undeb llafur.

Pa Wybodaeth Bersonol a Gasglwn?

Rydym yn casglu a chadw gwahanol fathau o wybodaeth bersonol amdanoch yn unol â'r gyfraith berthnasol. Dyma rai enghreifftiau:

- Enw, rhywedd, cyfeiriad cartref a rhif ffôn, statws priodasol, rhif adnabod y gweithiwr a rhifau ffôn argyfwng (gan gynnwys eich perthynas agosaf).

- Statws preswylio a thrwydded waith, cenedligrwydd a gwybodaeth basbort.
- Rhif nawdd cymdeithasol neu rifau adnabod trethdalwr / eraill gan y llywodraeth.
- Gwybodaeth cyflog, manylion banc.
- Gwybodaeth am gyflog a budd-daliadau.
- Gwybodaeth am gyfrifon ymddeol.
- Gwybodaeth am daliadau salwch, amser i ffwrdd gyda thâl ("**PTO**"), cyfrifon ymddeol, pensiynau, yswiriant a gwybodaeth am fuddion eraill.
- Gwybodaeth o unrhyw gyfweliadau a sesiynau sgrinio dros y ffôn a gawsoch.
- Gwybodaeth am ddyddiad cyflogaeth, dyddiad(au) dyrchafiad, hanes gwaith, sgiliau technegol, cefndir addysgol, tystysgrifau a chofrestriadau proffesiynol, sgiliau iaith a chofnodion hyfforddiant.
- Gwybodaeth gyswllt argyfwng ac am fuddiolwyr.
- Ffurflenni a gwybodaeth am gais ar gyfer, neu i wneud newidiadau i fuddion iechyd a lles staff, gan gynnwys anableddau tymor byr neu hir, gofal meddygol a deintyddol ac yn y blaen.
- Gwybodaeth am daldra, pwysau a maint dillad, ffotograffau, fideos, cyfyngiadau corfforol ac anghenion arbennig.
- Cofnodion absenoldeb o'r gwaith, gwyliau / amser i ffwrdd gyda thâl, hawliau a cheisiadau, hanes cyflog a disgwyliadau, arfarniadau perfformiad, llythyrau gwerthfawrogi a chanmoliaeth, gweithdrefnau disgyblu a chwyno (gan gynnwys monitro cydymffurfio gyda, a gorfodi ein polisïau).
- Lle caniateir i ni wneud yn gyfreithiol a lle bo'n berthnasol, gallwn gasglu canlyniadau archwiliadau cefndir credyd a throseddol, archwiliadau sgrinio ac iechyd, rhif trwydded yrru, rhif cofrestru cerbyd a hanes gyrru.
- Gwybodaeth sydd ei hangen arnom i gydymffurfio â chyfreithiau a cheisiadau a chyfarwyddiadau gan awdurdodau gorfodi'r gyfraith neu orchmynion llys (e.e. gwybodaeth cynnal plant a thalu dyledion).
- Cydnabyddiaeth yng nghyswllt ein polisïau gan gynnwys llawlyfrau staff, polisïau gwrthdaro budd a / neu foeseg, a pholisïau ar ddefnyddio cyfrifiaduron ac adnoddau corfforaethol eraill.
- Gwybodaeth sy'n cael ei chasglu ar systemau diogelwch, gan gynnwys Teledu Cylch Cyfyng ("**CCTV**").
- Negeseuon llais, e-byst, gohebiaeth, dogfennau a chynhyrchion gwaith a chyfathrebiadau eraill sy'n cael eu creu, storio neu drosglwyddo drwy ein rhwydweithiau, rhaglenni, dyfeisiau, cyfrifiaduron neu gyfarpar cyfathrebu.
- Dyddiad ymddiswyddo neu derfynu swydd, y rheswm am hynny, gwybodaeth am weinyddu terfynu'r gyflogaeth (e.e. geirdaon).
- Llythyrau'n cynnig a derbyn swydd.
- Eich CV, llythyr eglurhaol, profiad gwaith blaenorol a / neu berthnasol neu brofiad arall, addysg, trawsgrifiadau neu wybodaeth arall a roddwch i ni i gefnogi eich cais a / neu'r broses ymgeisio a recriwtio.
- Geirdaon a nodiadau cyfweliad.
- Gwybodaeth am unrhyw geisiadau blaenorol (yn y 12 mis diwethaf) a wnaed gennych i Grŵp Llandrillo Menai a / neu unrhyw hanes cyflogaeth blaenorol.

Sut y Casglwn eich Data

Fel rheol, casglwn wybodaeth bersonol yn uniongyrchol gennych mewn amgylchiadau lle rhowch wybodaeth bersonol i ni (yn ystod y broses gyflogaeth, er enghraifft). Ond mewn rhai achosion, bydd y wybodaeth bersonol a gasglwn yn wybodaeth wedi'i hawgrymu ar sail gwybodaeth arall a roesoch i ni, drwy eich cyswllt gyda ni, neu gan drydydd partïon. Pan gasglwn eich gwybodaeth bersonol gan drydydd partïon, bydd hyn naill ai oherwydd eich bod wedi rhoi caniatâd penodol i ni wneud hynny, lle awgrymwyd eich caniatâd gan yr hyn a wnaethoch (e.e. drwy gyflwyno cais ar hap, neu wrth i chi ddefnyddio gwasanaeth gweithwyr trydydd parti oedd ar gael i chi drwyddom ni) neu oherwydd eich bod wedi rhoi caniatâd penodol neu awgrymol i'r trydydd parti i ddarparu'r wybodaeth bersonol i ni.

Lle caniateir neu lle mae'n ofynnol i ni wneud yn gyfreithiol neu'n unol â rheoliadau, gallwn gasglu gwybodaeth bersonol amdanoch heb eich caniatâd neu'n ddiarwybod i chi.

Rydym yn cadw'r hawl i fonitro'r defnydd o'n hadeiladau, cyfarpar, cyfrifiaduron, dyfeisiau, rhwydweithiau, rhaglenni, meddalwedd ac adnoddau ac asedau tebyg. Os bydd y monitro hwn yn digwydd, gallai arwain at gasglu gwybodaeth bersonol amdanoch. Gall y monitro hwn gynnwys defnyddio camerâu teledu cylch cyfyng yn ac o gwmpas ein hadeiladau.

Sut y Defnyddiwn y Wybodaeth Bersonol a Gasglwn

Gallai Grŵp Llandrillo Menai ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol er mwyn:

1. Rheoli pob agwedd ar berthynas gyflogaeth ein staff, gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i sefydlu, cynnal a therfynu perthynas gyflogaeth. Mae enghreifftiau o weithgareddau'n ymwneud â hyn yn cynnwys: penderfynu a ydych yn gymwys ar gyfer cyflogaeth gychwynnol, gan gynnwys gwirio geirdaon a chymwysterau; gweinyddu cyflog a buddion; i dalu treuliau teithio corfforaethol a threuliau eraill; hyfforddiant a datblygu; monitro absenoldeb; rheoli prosiectau; gweithgareddau archwilio, cydymffurfio a rheoli risg; adrodd gwrthdaro budd; cyfathrebiadau staff; arfarnu perfformiad; camau disgyblu; cwynion ac ymchwiliadau mewnol; rheoli gyrfa gan gynnwys asesu cymwysterau ar gyfer gwaith neu dasg; prosesu hawliadau gan staff (e.e. iawndal, yswiriant); cynllunio olyniaeth; cymorth i adleoli; prynu a chadw yswiriant; i ddarparu gwasanaethau gweithwyr; ac ar gyfer pwrpasau gweinyddol, gweithredol, ariannol ac adnoddau dynol cysylltiedig eraill.
2. Lle gwnaethoch ofyn i ni, i'ch helpu i gael fisa mewnfudo neu drwydded waith lle mae angen un.
3. Ar gyfer fideo-gynadledda.
4. I gynnal cyfeiriadur o'n staff.
5. Ar gyfer rhaglenni ymgysylltu â staff, gan gynnwys arolygon.
6. I weinyddu ein rhaglenni iechyd a diogelwch galwedigaethol.
7. I warchod diogelwch ein gweithlu, gwesteion, eiddo ac asedau (gan gynnwys rheoli a hwyluso mynediad at, a monitro gweithgareddau yn ein

hadeiladau, a gweithgareddau'n defnyddio ein cyfrifiaduron, dyfeisiau, rhwydweithiau, cyfathrebiadau ac asedau ac adnoddau eraill).
8. Er mwyn ymchwilio i ac ymateb i hawliadau yn ein herbyn.
9. I gynnal manylion cyswllt argyfwng a buddiolwyr.
10. I gydymffurfio â chyfreithiau perthnasol (e.e. cyfreithiau cyflogaeth a threth, iechyd a diogelwch, rheoliadau'r swyddfa rheoli asedau tramor), gan gynnwys gorchmynion barnwrol neu weinyddol yng nghyswllt gweithwyr unigol.
11. Er mwyn cyflawni unrhyw bwrpasau ychwanegol y rhoddwn wybod i chi amdanynt (lle mae'r gyfraith yn gofyn am eich caniatâd penodol i wneud neu ddatgelu hynny, byddwn yn gofyn am hynny gennych).
12. I gyflawni unrhyw bwrpasau eraill fel rhan o'n gweithgareddau busnes rhesymol (lle mae'r gyfraith yn gofyn am eich caniatâd penodol i wneud neu ddatgelu hynny, byddwn yn gofyn am hynny gennych).

Rhannu Gwybodaeth Bersonol

Gallai eich gwybodaeth bersonol gael ei rhannu, gan gynnwys â'n cwmnïau cyswllt neu is-gwmnïau a thrydydd partïon, fel a ganlyn:

1. Lle'r ydych yn gofyn i ni, neu'n caniatáu i ni wneud.
2. I gyflawni'r pwrpasau defnyddio gwybodaeth bersonol a ddisgrifiwn uchod (wele Sut y Defnyddiwn y Wybodaeth Bersonol a Gasglwn).
3. Wrth ddefnyddio neu gydweithredu â thrydydd partïon er mwyn rhedeg ein busnes, gan gynnwys yng nghyswllt darparu llawer o'r buddion a'r gwasanaethau a gynigiwn i'n staff (e.e. systemau gwybodaeth Adnoddau Dynol, darparwyr yswiriant a darparwyr rhaglenni lles). Wrth rannu gwybodaeth bersonol â thrydydd partïon, rydym fel arfer yn mynnu eu bod ond yn defnyddio neu'n datgelu gwybodaeth bersonol mewn ffordd sy'n gyson â'r darpariaethau defnyddio a datgelu yn y Polisi Preifatrwydd hwn ac mewn cyfreithiau perthnasol.
4. Wrth i ni brynu neu werthu busnesau ac asedau eraill. Fel rhan o'r trafodion busnes hyn, mae gwybodaeth am staff fel arfer yn un o'r asedau busnes a drosglwyddir ac rydym yn cadw'r hawl i gynnwys eich gwybodaeth bersonol fel rhan o drosglwyddo asedau o'r fath. Hefyd os byddwn ni, neu fwy neu lai ein holl asedau, yn cael eu prynu, gallai eich gwybodaeth bersonol fod yn un o'r asedau a drosglwyddir.
5. Lle mae'n ofynnol i ni wneud o dan gyfraith neu orchymyn llys, asiantaeth weinyddol neu dribiwnlys llywodraeth, sy'n cynnwys mewn ymateb i gais cyfreithlon gan awdurdod cyhoeddus, gan gynnwys er mwyn cwrdd â gofynion gorfodi'r gyfraith neu ddiogelwch cenedlaethol neu mewn ymateb i broses gyfreithiol.
6. Os penderfynwn fod angen neu y byddai'n ddymunol cydymffurfio â'r gyfraith neu i warchod neu amddiffyn ein hawliau neu eiddo.
7. Fel bo angen i warchod hawliau, preifatrwydd, diogelwch neu eiddo grŵp neu unigolyn y gellir eu hadnabod, neu er mwyn canfod, atal neu ymateb i faterion twyll, technegol neu ddiogelwch, neu i warchod rhag niwed i hawliau, eiddo neu ddiogelwch *alumni*, ein defnyddwyr, ymgeiswyr, gweithwyr neu'r cyhoedd, neu fel bo'n gyfreithiol ofynnol fel arall.
8. Lle mae'r wybodaeth bersonol yn gyhoeddus.
9. I ofyn am gyngor gan ein cyfreithwyr a chynghorwyr proffesiynol eraill.

10. Gyda chynghorwyr proffesiynol (e.e. bancwyr, cyfreithwyr, cyfrifwyr) a darpar brynwyr a gwerthwyr yng nghyswllt gwaredu neu brynu drwy ddefnyddio busnes neu ased.
11. Fel y rhan fwyaf o fusnesau rhyngwladol, rydym wedi canoli rhai agweddau ar ein gweithrediadau busnes, gan gynnwys gweinyddu ariannol ac adnoddau dynol. Gallai hyn olygu trosglwyddo gwybodaeth bersonol o un wlad i'r llall ac ymhlith ein gwahanol gwmnïau cyswllt ac is-gwmnïau. Dylid nodi y gallai hyn gynnwys gwledydd lle ystyrir nad yw hawliau cyfreithiol unigolion a lefel y gwarchod preifatrwydd efallai'n cyfateb i'r safonau gwarchodaeth yn y gwledydd hynny sydd â chyfreithiau diogelu data cynhwysfawr, fel gwledydd yr Undeb Ewropeaidd.

Cael Gweld y Wybodaeth Bersonol a Gasglwn

Gallwch ofyn am gael gweld y wybodaeth bersonol a gasglwn amdanoch. Os ydych eisiau adolygu, gwirio neu gywiro eich gwybodaeth bersonol, e-bostiwch data@gllm.ac.uk.

Wrth ofyn am gael gweld eich gwybodaeth bersonol, cofiwch y gallwn ofyn am wybodaeth benodol gennych er mwyn cadarnhau eich hunaniaeth a'ch hawl i gael gweld y wybodaeth a hefyd er mwyn gallu chwilio am a darparu'r wybodaeth bersonol a gadwn amdanoch i chi. Mewn rhai amgylchiadau prin, gallwn godi ffi arnoch am gael gweld eich gwybodaeth bersonol; ond rhown wybod i chi ymlaen llaw am unrhyw ffi.

Nid oes gennych hawl absoliwt i gael gweld y wybodaeth bersonol a gadwn amdanoch. Mae rhai achosion lle mae gofynion rheoleiddio neu'r gyfraith berthnasol yn caniatáu neu'n gofyn i ni wrthod rhoi'r wybodaeth bersonol a gadwn amdanoch, naill ai i gyd neu'n rhannol. Gallai'r wybodaeth bersonol hefyd fod wedi ei dinistrio, dileu neu ei gwneud yn ddienw. Os na allwn roi mynediad i chi at eich gwybodaeth bersonol, byddwn yn rhoi gwybod pam, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol neu reoleiddio.

Cywiro Gwybodaeth Bersonol a Gasglwn

Rydym yn ceisio sicrhau bod y wybodaeth bersonol yn ein meddiant yn gywir, yn gyfredol ac yn gyflawn. Os yw unigolyn yn credu bod y wybodaeth bersonol amdanynt yn anghywir, anghyflawn neu wedi dyddio, medrant ofyn am ddiwygio neu gywiro'r wybodaeth honno. Rydym yn cadw'r hawl i beidio â newid unrhyw wybodaeth bersonol os credwn ei bod yn gywir.

Os penderfynir bod gwybodaeth bersonol yn anghywir, anghyflawn neu wedi dyddio, byddwn yn ei diwygio a lle bo angen yn gwneud ymdrechion rhesymol i roi gwybod i asiantaethau, darparwyr gwasanaeth neu drydydd partïon a dderbyniodd y wybodaeth anghywir am hynny fel y medrant gywiro a diweddaru eu cofnodion hwythau hefyd.

Cadw'r Wybodaeth a Gasglwn

Ac eithrio lle caniateir neu lle bo'n ofynnol i ni wneud o dan ofynion rheoleiddio neu o dan y gyfraith berthnasol, gallwn gadw eich gwybodaeth bersonol am gyn hired ag y credwn bo angen i gyflawni'r pwrpasau y casglwyd y wybodaeth bersonol ar eu cyfer (gan gynnwys er mwyn cwrdd ag unrhyw ymrwymiadau neu ofynion cyfreithiol, cyfrifo neu adrodd eraill).

Gallwch ofyn i ni ddileu'r wybodaeth bersonol a gadwn amdanoch. Mae rhai achosion lle mae gofynion rheoleiddio neu'r gyfraith berthnasol yn caniatáu neu'n gofyn i ni wrthod dileu'r wybodaeth bersonol yma. Os na allwn ddileu eich gwybodaeth bersonol, byddwn yn rhoi gwybod pam, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol neu reoleiddio.

Ceisiadau i Gael Gweld, Dileu neu Gywiro Gwybodaeth

I wneud cais i gael gweld, dileu neu gywiro eich gwybodaeth bersonol, e-bostiwch data@gllm.ac.uk.

Ni fydd unrhyw gais gennych i ddileu eich gwybodaeth bersonol yn arwain at ddileu unrhyw wybodaeth a roesoch i ddarparwr trydydd parti. Os byddwch am i'r trydydd parti ddileu eich gwybodaeth bersonol, rhaid i chi gysylltu â'r trydydd parti'n uniongyrchol i ofyn iddynt wneud hynny.

Datrys Pryderon

Os oes gennych gwestiwn neu bryder am sut y mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin, e-bostiwch data@gllm.ac.uk. Neu gallwch adrodd eich pryder neu wneud cwyn. Rhoddir y manylion ar wefan y Grŵp.

Newidiadau i'r Polisi Preifatrwydd

Gallwn newid y Polisi Preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd. Rhoddir y dyddiad effeithiol ar gyfer pob fersiwn o'r Polisi hwn isod.

Diogelwch y Wybodaeth a Gasglwn

Rydym yn ymrwymedig i warchod diogelwch y wybodaeth bersonol a gasglwn ac mae gennym ragofalon ffisegol, electronig a gweinyddol rhesymol yn eu lle i helpu i warchod y wybodaeth rhag mynediad neu ddefnydd diawdurdod neu amhriodol.

Er mwyn cydymffurfio ag egwyddorion y GDPR, mae Grŵp Llandrillo Menai yn ymrwymedig i ddatrys cwynion neu bryderon a allai fod gennych am breifatrwydd neu am sut y defnyddir eich gwybodaeth bersonol (wele'r adran Ceisiadau i Gael Gweld neu Gywiro Gwybodaeth, a'r adran Datrys Pryderon).

Os nad yw eich cwyn yn cael ei ddatrys yn foddhaol gyda ni'n uniongyrchol, gallwch gysylltu â'r darparwr datrys anghydfod annibynnol yn ico.org.uk.